# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR Y LLUOEDD ARFOG A'R CADETIAID

## ADOLYGIAD O EFFAITH CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU







# TUDALEN GYNNWYS


RHAGAIR Y CADEIRYDD ______ p.1

CYFLWYNIAD ______ p.4

CYFAMOD Y LLOEDO ARFOG ______ p.6

ADRAN 1 CEFNDIR ______ p.8

ADRAN 2 CASGLIADAU

**Crynodeb o'r ymatebion** ______ **p.20**

**Datblygiadau cadarnhaol wrth weithredu'r Cyfamod** ______ **p.21**


**Meysydd lle bu diffyg cynnydd wrth weithredu'r Cyfamod** ______ **p.27**


**Awgrymiadau ar gyfer gwella** ______ **p.32**

SECTION 3 ADDEWIDION

**Cynnal y Cyfamod** ______ **p.35**
**Nodi maint ac anghenion cymuned y Lluoedd Arfog** ______ **p.35**
**Iechyd a llesiant** ______ **p.36**
**Addysg** ______ **p.36**
**Cofi o** ______ **p.37**
**Tai** ______ **p.37**
**Cyfl ogaeth** ______ **p.37**

**Atodiad 1 – *Invitation to Contribute*** ______ **p.37**
**Atodiad 2 – Dolenni defnyddiolp** ______ **p.40**



# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Gan mlynedd yn ôl i heddiw, llofnodwyd cytundeb neu gyfamod i roi terfyn ar y Rhyfel Byd Cyntaf – er na pharodd y cyfamod hwnnw.

Ganrif yn ddiweddarach, mae ein Lluoedd Arfog a'r rhai sy'n dal i wasanaethu yn parhau i ennyn parch pobl Cymru ac yn rhan werthfawr o'n cymdeithas. Er mai llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn, mae dyletswydd ar Gymru i roi'r cymorth gorau posib i rai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y fyddin.

Cafodd Cyfamod y Lluoedd Arfog ei ymgorffori yn y gyfraith yn 2011. Mae'n cydnabod rhwymedigaeth foesol y wlad i aelodau o'r lluoedd arfog, i gyn-filwyr, a'u teuluoedd, ac mae'n amrywio i sicrhau na ddylent fod dan unrhyw anfantais wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a masnachol o ganlyniad i'w gwasanaeth milwrol. Mae Llywodraeth Cymru a holl awdurdodau lleol Cymru wedi llofnodi'r Cyfamod ac wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau partner i arddel ei egwyddorion. Ac, yn wahanol i'r cadoediad a lofnodwyd ar 11 Tachwedd 1918, mae'r Cyfamod hwn yma i aros.

Ym mis Ionawr 2017, galwodd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid am adolygiad o effaith y Cyfamod. Ond gan nad oedd neb arall yn bwrw ymlaen â'r gwaith, fe wnaethom lansio ymchwiliad yn gynharach eleni sydd wedi esgor ar yr adroddiad hwn.

Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn dangos bod gwaith gwych wedi ei wneud ledled Cymru wrth gyflawni'r amcanion hyn. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ymwybodol o rôl cymuned ein lluoedd arfog a'u cyfraniad i fywyd cyhoeddus Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Bu datblygiadau pwysig yn y system cyfiawnder ieuenctid, ein gwasanaeth iechyd a'n system addysg. Hefyd, bu cynnydd derbyniol iawn mewn prosiectau wedi'u targedu'n benodol at ddiwallu anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Ond er gwaetha'r datblygiadau cadarnhaol hyn, mae lle i wella eto.

Nid oes digon o atebolrwydd i sicrhau bod y sefydliadau hynny sydd wedi llofnodi'r Cyfamod yn cyflawni eu rhwymedigaethau mewn gwirionedd; dyw staff rheng flaen y sector cyhoeddus ddim bob amser yn gyfarwydd â'r Cyfamod a'i amcanion; ac mae angen mynd i'r afael â chyllid anghynaliadwy ar gyfer rhai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Cyfamod.
Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i bawb sy'n ei ddarllen. Credwn y gall ein hargymhellion wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau personél milwrol, cyn-filwyr a'u teuluoedd ledled Cymru ac rydym yn annog penderfynwyr ar bob lefel o Lywodraeth i ddangos eu hymrwymiad llwyr i'r Cyfamod trwy ei roi ar waith.

Wrth i ni nodi'r dyddiad pwysig hwn, mae dyled arnom i'r rhai a frwydrodd yn y Rhyfel Mawr i sicrhau ein bod ni'n parhau i gofio amdanynt trwy arddel y Cyfamod rhwng pobl Cymru a'r rhai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog.

Ni â'u cofiwn hwy.

**Darren Millar AC**
**Cadeirydd, Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid**

11 Tachwedd 2017



# CYFLWYNIAD

Fforwm lle gall Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr sector y Lluoedd Arfog drin a thrafod materion sy'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid yng Nghymru yw'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid (y Grŵp Trawsbleidiol). Mae'r fforwm yn cyfarfod unwaith ym mhob tymor y Cynulliad er mwyn trafod cydfuddiannau'r Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid yma yng Nghymru.

Ers diogelu Cyfamod y Lluoedd Arfog mewn cyfraith yn 2011, mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi darparu cyfleoedd i drafod gweithredu'r Cyfamod, rhannu arferion gorau, a thynnu sylw at feysydd lle mae angen cymryd camau pellach o bosib.

Wedi i amryw o adroddiadau a phrosiectau ymchwil DU gyfan sy'n ymwneud â'r Cyfamod gael eu cyhoeddi, penderfynodd cyfarfod mis Ionawr 2017 o'r Grŵp Trawsbleidiol y byddai'n werth adolygu sut roedd y Cyfamod yn cael ei roi ar waith yng Nghymru:

- Nodi arferion gorau yn lleol ac yn genedlaethol
- Tynnu sylw at fylchau mewn darpariaeth a gweithredu'r Cyfamod er mwy gwella'r ddarpariaeth
- Mapio'r ddarpariaeth gyfredol
- Cyflwyno awgrymiadau ymarferol ar wella'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth i'r gymuned lluoedd arfog

Yn ogystal â chynrychiolwyr holl bleidiau gwleidyddol y Cynulliad, mae gan y Grŵp Trawsbleidiol aelodaeth allanol eang iawn sy'n cynrychioli'r lluoedd arfog, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, darparwyr gwasanaethau statudol ac elusennau milwrol. Mae'r sawl sy'n bresennol yn cynnwys:

- Pencadlys 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru
- Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
- Barnardo's Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Change Step
- Defence Medical Welfare Service
- Help for Heroes
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Y Llynges Frenhinol
- Y Môr-filwyr Brenhinol
- Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr ac Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
- Cymdeithas y Lluoedd wrth Gefn a'r Cadetiaid
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol
- The St. John and Red Cross Defence Medical Welfare Service
- UK Veterans One Voice
- Universities in Support of Wounded, Injured and Sick Service Personnel
- Prifysgol Caer
- Veterans NHS Wales
- Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr
- Welsh Veterans Partnership

Ar 16 Mehefin 2017, fe wnaeth ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol estyn gwahoddiad i gyfrannu i ymchwiliad i effaith Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Roedd yn wahoddiad eang i'r Lluoedd Arfog a'r sectorau cysylltiedig gan gynnwys:

- Holl awdurdodau lleol Cymru
- Holl Fyrddau Iechyd Cymru
- Aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol
- Elusennau milwrol
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Sefydliadau'r trydydd sector

Cafodd y gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad ei ddosbarthu ar led gan Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog a Fforymau Cyfamod y Lluoedd Arfog ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd cymaint â phosib o sefydliadau ac unigolion â diddordeb mewn cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Roedd y gwahoddiad i gyfrannu (gweler Atodiad 1 – *Invitation to Contribute*) yn cynnwys y chwe chwestiwn canlynol:

1. What is your involvement in the support of the Armed Forces Community in Wales?
2. What positive developments have you seen in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?
3. Where has progress been lacking in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?
4. What is your individual / organisational contribution to the delivery of the Covenant in Wales and ensuring it adds value?
5. What three practical suggestions would you like to see implemented to support the armed forces community in wales via the Covenant?
6. Is there anything else you would like to say?

Yna, cafodd yr ymatebion i'r gwahoddiad hwn eu casglu, eu hadolygu, eu trafod a'u hystyried yn ofalus gan y Grŵp Trawsbleidiol a ddaeth i gasgliad wedyn a gwneud argymhelliad yn dibynnu ar y dystiolaeth a gafwyd.

Cytunwyd ar yr adroddiad hwn mewn cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 24 Hydref 2017.

## CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Cyfamod Parhaus rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig, Llywodraeth ei Mawrhydi

– a –

Pob un sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron

A'u Teuluoedd

Prif ddyletswydd y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae'n Lluoedd Arfog yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar ran y Llywodraeth gan aberthu peth o'u rhyddid sifil, wynebu peryglon a dioddef anafiadau difrifol neu farwolaeth, o bryd i'w gilydd, o ganlyniad i'w dyletswydd. Yn ogystal, mae teuluoedd yn chwarae rhan hanfodol yn cefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hynny, mae gan y genedl gyfan gyfrifoldeb moesol tuag at aelodau'r Gwasanaeth Llyngesol, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol, a'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth a chael eu trin yn deg.

Ni ddylai'r unigolion hynny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn Rheolaidd neu Wrth Gefn, unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill o ran y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig iddynt mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi rhoi fwyaf, megis y rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth.

Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys y gymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat a gweithredoedd unigolion wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai sydd wedi gweithredu dyletswyddau milwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Mae cefnogi'r Cyfamod hwn yn fynegiant cryf o hynny.



Addewid gan y genedl sy'n sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg yw Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'n addewid ein bod ni, gyda'n gilydd, yn cydnabod ac yn deall y dylai'r rhai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, gael eu trin â thegwch a pharch yn y cymunedau, yr economi a'r gymdeithas maen nhw'n eu gwasanaethu â'u bywydau[1].

At ddiben y Cyfamod, diffinnir Cymuned y Lluoedd Arfog fel;

- Milwyr rheolaidd
- Milwyr wrth gefn gwirfoddol a rheolaidd
- Cyn-filwyr
- Teuluoedd milwyr rheolaidd, milwyr wrth gefn a chyn-filwyr
- Teulu galarus milwyr a chyn-filwyr fu farw

Cafodd egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog eu hymgorffori yn y gyfraith yn 2011, gan addo:

- Ni ddylai aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog wynebu unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol;
- Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig iddynt mewn rhai achosion, yn enwedig y rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf, megis y rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi dioddef profedigaeth.

Mae'r Cyfamod yn amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y genedl, y llywodraeth a'r Lluoedd Arfog. Mae'n annog cymunedau lleol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardal a hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi'r Cyfamod gan wneud datganiad cyhoeddus i arddel ei egwyddorion a gweithio law yn llaw â sefydliadau partner.

**Amcanion y Cyfamod ar lawr gwlad**

Cafodd awdurdodau lleol a'r lluoedd arfog eu hannog i gydweithio i sefydlu cyfamod yn eu hardal er mwyn:

- Sicrhau bod cymunedau lleol yn cefnogi cymuned y lluoedd arfog yn eu hardaloedd, a meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau sy'n wynebu cymuned y Lluoedd Arfog
- Cydnabod a chofio aberth cymuned y lluoedd arfog
- Helpu i integreiddio cymuned y lluoedd arfog i fywyd lleol
- Annog cymorth a chefnogaeth gan gymuned y lluoedd arfog i'r gymuned ehangach, boed trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau ar y cyd, neu ddulliau eraill o ymgysylltu[2].

[1] https://www.armedforcescovenant.gov.uk/about/
[2] Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/armed-forces-community-covenant/armed-forces-community-covenant

**Hynt y Cyfamod yng Nghymru**

Ers i'r Cyfamod ddod i rym yng Nghymru, mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys:

- Pob awdurdod lleol yn llofnodi'r Cyfamod
- Pob Bwrdd Iechyd lleol yn llofnodi'r Cyfamod; ng y Weinyddiaeth Amddiffyn, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sefydliadau statudol a gwirfoddol
- Cyhoeddi dogfennau Pecyn Cymorth a Croeso i Gymru er mwyn darparu gwybodaeth i gymuned y Lluoedd Arfog am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru
- Cadarnhad yn 2017 y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn cael cefnogaeth swyddogion cyswllt y Lluoedd Arfog, wedi'u hariannu gan y Cyfamod
- Hyfforddi staff rheng flaen awdurdodau lleol gan rai elusennau, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gymuned y Lluoedd Arfog a'r cymorth sydd ar gael
- Cymorth cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn trwy gynllun *Defence Employer Recognition Scheme*. Mae'r cynllun yn cynnwys gwobrau efydd, arian ac aur ar gyfer sefydliadau cyflogwyr sy'n addo, yn dangos neu'n hyrwyddo cefnogaeth i'r gymuned amddiffyn a'r lluoedd arfog, ac sy'n cysoni eu gwerthoedd â Chyfamod y Lluoedd Arfog. Mae Prifysgol De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Rhondda Cynon Taf ymhlith y sefydliadau sydd wedi'u cydnabod dan y cynllun
- Cyflwyno profiad gwaith a dysgu diwydiannol wedi'i achredu yng Nghymru trwy gynllun *Armed Forces Employability Pathway* y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n helpu aelodau o'r Lluoedd Arfog i ddysgu sgiliau newydd ac yn cynorthwyo rhai â diddordeb mewn gyrfa yn y Lluoedd Arfog i gael profiad ohono

**Llywodraethu - Cyflawni'r Cyfamod yng Nghymru**

Ers 2011/12, datblygwyd trefniadau llywodraethu sy'n helpu i gyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol trwy weithio mewn partneriaeth rhwng amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys y sectorau statudol, milwrol a'r trydydd sector.

Gallwn gategoreiddio'n fras strwythurau cyfredol y Cyfamod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, fel a ganlyn:

| Lefel | Fformat | Arweinydd | Pa mor aml |
|---|---|---|---|
| Lleol | Fforwm / cyfarfod y Lluoedd Arfog | Awdurdod Lleol | Chwarterol / Dwywaith y flwyddyn |
| Rhanbarthol | Fforwm / Grŵp llywio rhanbarthol | Awdurdod Lleol / Bwrdd Iechyd Lleol | Chwarterol / Dwywaith y flwyddyn |
| Cenedlaethol | Cynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog | Llywodraeth Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Dwywaith y flwyddyn |
| Cenedlaethol | Grŵp Arbenigol ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Llywodraeth Cymru | Dwywaith y flwyddyn |

Yn ychwanegol at yr uchod, mae fforymau cysylltiedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda phwyslais ar feysydd penodol, er enghraifft Rhwydweithiau Clinigol Iechyd Meddwl Cyn-filwyr.

Mae elusennau'r fyddin yng Nghymru hefyd yn cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, dan law'r Lleng Brydeinig Frenhinol, er mwyn rhannu arferion gorau, mynd i'r afael â phryderon a chyfnewid gwybodaeth. Mae cyfarfodydd rhanbarthol eraill yn cynnwys grwpiau wedi'u hwyluso gan Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru a chyfarfodydd cynhadledd rheoli achosion lleol. Er enghraifft, mae Veterans NHS Wales; y Lleng Brydeinig Frenhinol; the Soldiers, Sailors and Airmen's Families Association a Change Step yn mynychu cyfarfodydd y Gogledd.

Hefyd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid.

**Y Fyddin yng Nghymru**

**Pencadlys 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru**

Gallwn olrhain treftadaeth Pencadlys 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru i hanner ola'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a Brigâd Cyffinwyr Cymru. Bu'n rhan amlwg iawn o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan gyfrannu at ymgyrchoedd y Dardanelles, yr Aifft a Phalestina, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, lle helpodd i ryddhau Ewrop o afael y Natsïaid fel rhan o'r 53ain Adran (Cymreig), gan weithredu yn Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a'r Almaen.

Wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddi, roedd y frigâd yn fwyfwy cyfrifol am Gymru ac yn gysylltiedig â hi, ac yn y pen draw daeth i gael ei galw yn 160ain Brigâd Cymru, sef cynrychiolydd y fyddin yng Nghymru i bob pwrpas. Roedd hyn yn wir tan 1 Rhagfyr 2014, pan fathwyd teitl cyfredol y frigâd (a chyfrifoldebau ychwanegol), sef Pencadlys 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru.

Brigâd o luoedd addasadwy yw'r 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru bresennol, dan gadlywyddiaeth yr Adran 1af (Y Deyrnas Unedig). Er mai yn Aberhonddu y mae'r pencadlys o hyd, mae ei dylanwad a'i chylch gwaith yn ymestyn yn bell tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae gan y Frigâd dair tasg benodol; paratoi'r lluoedd ar gyfer ymgyrchoedd, ymgysylltu ag amddiffyn, a chynnal a chefnogi safle cadarn a Chymru.

Mae pedwar bataliwn o filwyr traed dan orchymyn uniongyrchol y Frigâd, ac nid yw'r un ohonynt wedi'u lleoli o fewn ffiniau Cymru mewn gwirionedd. Mae aelodau'r pedwar bataliwn wedi'u hanfon i bedwar ban byd dros y 18 mis diwethaf, yn bennaf i wasanaethu yn Irac ac Affganistan.

Er nad ydynt o dan orchymyn uniongyrchol y Frigâd, mae'r unedau brwydro Cymreig' – Bataliwn 1af y Cymry Brenhinol, Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig, a Chatrawd 1af Gwarchodlu Marchfilwyr y Frenhines (Cafalri Cymreig) – yn ganolog i ôl troed y Fyddin yng Nghymru, ac yn cyfrannu'n llawn at weithgarwch recriwtio ledled y wlad.

Trwy ei waith amddiffyn dan gyfarwyddyd, mae'r frigâd yn ymwneud â chyfanswm o 16 o wledydd, wedi'u clystyru mewn pedwar rhanbarth unigryw; Gorllewin y Balcanau, De'r CawcaswS, Dwyrain Ewrop, a Chanol Asia. Mae cysylltiadau cyson â'r gwledydd hyn - sy'n creu cyfle i feithrin perthynas agosach fyth, lle bo hynny'n ddymunol - yn brif ganolbwynt i'r Frigâd, a'r adran amddiffyn yn gyffredinol.

**Y Llu Awyr Brenhinol**

Ar 1 Ionawr 2017, mae rhyw 590 o aelodau rheolaidd o'r Awyrlu Brenhinol (RAF) a 180 aelod o luoedd wrth gefn yr Awyrlu Brenhinol yng Nghymru, ynghyd â 190 o weision sifil. RAF y Fali, Ynys Môn, yw cartref unig ysgol hyfforddi peilotiaid rhyfel yr RAF a chartref Sgwadron 202(R) hefyd. Mae'r Sgwadron yn darparu sgiliau mynydd, morwrol a hedfan hanfodol i griw hofrenyddion yr RAF a'r Llynges ddydd a nos, yn ogystal â hyfforddiant uwch mewn chwilio ac achub.

Dyma bencadlys Gwasanaeth Achub Mynydd yr RAF hefyd, yn ogystal â'r tîm sy'n darparu'r ymateb cyntaf i ddigwyddiadau awyrennau milwrol a rhai awyrennau sifilaidd, ac argyfyngau eraill.
Ar ben hynny, mae canolfan Sgwadron Awyr/1 Air Experience Flight Prifysgol Cymru (UWAS) wedi'i lleoli yn safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan. Mae'r UWAS yn recriwtio hyd at 60 o raddedigion o golegau a phrifysgolion yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Bro Morgannwg, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan. Mae Sgwadron 614 (Sir Forgannwg) y Llu Awyr Brenhinol Atodol wedi'u lleoli ym marics Tŷ Llewellyn, Caerdydd, ac mae'n un o 7 sgwadron cymorth cyffredinol yn y DU sydd â'r dasg o baratoi milwyr ychwanegol ar gyfer eu gwaith ac fel aelodau wrth gefn i'w cyfoedion rheolaidd yng nghanolfannau'r RAF fel bo'r angen.

Mae presenoldeb cryf o Gorffluoedd Hyfforddiant Awyr ar hyd a lled Cymru, yn cwmpasu 3 Asgell, tua 40 Sgwadron a thros 1800 o Gadetiaid Awyr.

**Y Llynges**

Tra bod nifer fechan o filwyr y Llynges yn gwasanaethu ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y fyddin a'r RAF mewn canolfannau fel RAF y Fali ac mewn swyddfeydd gyrfaoedd y Lluoedd Arfog, dim ond un uned sydd gan y Llynges Frenhinol yng Nghymru ei hun - HMS Cambria yn y Barri, sy'n cynnwys un fintai o Fôr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn sydd wedi cyd-leoli yno. Uned y Llynges Frenhinol Wrth Gefn yw HMS Cambria, gyda thua 104 o aelodau o'r Llynges Wrth Gefn a 28 o Fôr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn, sy'n cynnal hyfforddiant ar gyfer sawl rôl arbenigol ac yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y Llynges reolaidd. Bydd yr Uned hon yn symud i adeilad newydd ym Mae Caerdydd yn fuan yn 2019, ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn ar y safle ddechrau 2018.

Yn ogystal â'r uned dir hon, fodd bynnag, mae sawl llong â chysylltiad â threfi a dinasoedd Cymru, sy'n fodd i gadw perthynas agos rhwng y wlad a'r llynges: HMS Dragon - Caerdydd; HMS Monmouth - Sir Fynwy; HMS Pembroke - Sir Benfro; HMS Scott - Abertawe; HMS Express - Aberystwyth; ac RFA Cardigan Bay - Aberteifi. Yn olaf, ceir unedau'r cadetiaid: Uned y Llynges Frenhinol Prifysgol Caerdydd; uned newydd CCF y Llynges Frenhinol yn Ysgol Uwchradd Fitzalan a nifer o Unedau Cadetiaid y Môr, pob un yn cefnogi gwasanaeth y Llynges mewn digwyddiadau ac achlysuron seremonïol.

**Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid**

Corff Llywodraeth Ganolog gyda statws y Goron a sefydlwyd ym 1908 (fel y 'Territorial Associations') yw Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid (RFCA) a gynlluniwyd yn wreiddiol i ddarparu cymorth lleol i'r lluoedd tiriogaethol ym mhob sir. Gwaith yr RFCA yw:

- Darparu cyngor a chymorth ar ran lluoedd wrth gefn a chadetiaid gwirfoddol y DU ar lefel leol
- Gweithio gydag awdurdodau'r Tri Gwasanaeth
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau â'r gymuned

Mae'r RFCA yn cyflwyno amryw o wasanaethau yn unol â'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a bennwyd gyda phob un o'n prif gyllidwyr a chwsmeriaid, y Gwasanaethau. Fel darparwr gwasanaeth rheolaidd i'r lluoedd wrth gefn a'r cadetiaid ledled Cymru, mae prif orchwylion yr RFCA yng Nghymru yn ymwneud ag ystadau, ymgysylltu â chyflogwyr, ymgysylltu â'r gymuned a chadetiaid a phobl ifanc. Gan weithio gyda gwasanaethau'r fyddin yng Nghymru, mae'r Gymdeithas yn benderfynol, o fewn cyfyngiadau ariannol, i wella'r ystâd ar gyfer y lluoedd wrth gefn a'r cadetiaid, meithrin perthynas gadarnhaol a hirsefydlog gyda chyflogwyr sydd, yn eu tro, yn cefnogi oedolion sy'n gwirfoddoli fel lluoedd wrth gefn a'r cadetiaid, cefnogi'r maes amddiffyn trwy ymgysylltu â chymunedau er mwyn cael cefnogaeth ganddynt a chodi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaethau a chynnal lluoedd y cadetiaid a'u llesiant ar hyd a lled Cymru.

Sefydliad o ryw 8,000 o aelodau gwirfoddol yw'r Gymdeithas yn y bôn. Maen nhw'n ffordd amhrisiadwy o gysylltu â chymunedau, darparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian a llywio ffordd o feddwl y maes amddiffyn, yn enwedig o ran llesiant tymor hir y lluoedd wrth gefn a'r cadetiaid. Mae prif swyddfa'r Gymdeithas yng Nghaerdydd, ac mae is-swyddfa yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint hefyd.

**Cynllun Grant y Cyfamod**

Panel gweinyddu datganoledig Pencadlys 160ain Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun Grant y Cyfamod hyd at £20,000, ac mae'n cyfarfod i adolygu ceisiadau. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr y tri gwasanaeth milwrol a'r sectorau statudol ac elusennol. Mae ceisiadau am gyllid o dros £20,000 yn cael eu rheoli ar lefel y DU.

Mae enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cael arian gan y Cyfamod yng Nghymru yn cynnwys[3]:

| Enw'r Sefydliad | Enw'r Prosiect | Dyfarniad | Gweithgarwch |
|---|---|---|---|
| Barnado's Cymru | The Families of Veterans' Support Service (FVSS) | £433,708 | Cefnogi teuluoedd cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog |
| Canolfan Gymuned Llangwm | WW1- A Village at War | £9,659 | Arddangosfa'r Rhyfel Byd Cyntaf |
| Cyfeillion Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol, Aberhonddu | Never Forget Your Welsh Heroes | £18,951 | Arddangosfa |
| Cyngor Sir Gwynedd | Cryfhau mynediad at wasanaethau cymorth ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog | £10,300 | Gwasanaethau Cymorth |
| Ysgol Feithrin a Babanod Mount Street | Gardd Gymunedol Ysgol Feithrin Mount Street | £17,500 | Addysgol |

Hyd yma, mae £3 miliwn o gyllid y Cyfamod wedi'i gyflwyno i ariannu mentrau a phrosiectau yma yng Nghymru.

[3] https://www.armedforcescovenant.gov.uk/covenant-fund-awards-2015-2016/#Wales

**Grŵp Arbenigol Gweinidogol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadeirio Grŵp Arbenigol ar anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Dywed Cylch Gorchwyl y Grŵp, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ei fod yn *'brings together people with a detailed knowledge of issues which affect the Service community (or a specific part of it) in Wales, to improve our understanding of their needs and of ways in which service delivery might be improved'*[4].

Mae'r Grŵp yn cynnwys y cynrychiolwyr canlynol:

- Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
- Y Fyddin
- Cydffederasiwn Elusennau Gwasanaeth Milwrol
- HIVE
- Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges
- Ffederasiwn Teuluoedd y Llu Awyr Brenhinol
- Y Llu Awyr Brenhinol
- Y Llynges Frenhinol
- Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr ac Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol
- Pwyllgor Cynghori a Phensiynau Cyn-filwyr Cymru

Mae'r Grŵp yn ystyried anghenion gwasanaethau cyhoeddus milwyr, cyn-filwyr y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, ac a yw'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn diwallu'r anghenion. Hefyd, mae'r Grŵp yn cadw llygad ar gyflwyno'r Cyfamod ar lawr gwlad a pha gyfle sydd i wneud gwasanaethau'n fwy ymatebol.

**Cynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal Cynhadledd y Lluoedd Arfog ddwywaith y flwyddyn. Mae'n dwyn ynghyd Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, cynrychiolwyr milwrol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r cyfarfod hwn yn hwyluso'r broses o rannu arferion gorau trwy gyflwyniadau ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio a rhwydweithio.

**Mesur cynnydd y Cyfamod a'r gefnogaeth gyffredinol i gymuned y Lluoedd Arfog**

Ers gweithredu'r Cyfamod, bu adroddiadau ac ymchwiliadau niferus am agweddau amrywiol ar y ddarpariaeth, sy'n cwmpasu gwaith ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Hefyd, mae cyfoeth o ymchwil yn cael ei gyflwyno neu ei gefnogi gan sefydliadau academaidd ac asiantaethau cyllido o bob math, fel Forces in Mind Trust, sy'n ychwanegu gwerth at y sail dystiolaeth ac yn helpu i

[4] Cylch gorchwyl y grŵp arbenigol - http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/armed-forces-expert-group/?lang=en

ddatblygu polisi.
*Ar lefel Cymrul*

Cyn Deddf y Lluoedd Arfog 2011 wnaeth ymgorffori egwyddorion y Cyfamod yn y gyfraith, cynhaliwyd ymchwiliad gan **Bwyllgor Iechyd, Llesiant a Llywodraeth Leol** y Cynulliad Cenedlaethol yn 2010 i driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma (PTSD) i gyn-filwyr yng Nghymru[5]. Daeth 13 o ymatebion i law ynghyd â thystiolaeth lafar gan dystion. Cyflwynwyd 19 o argymhellion gan gynnwys:

- Gwell proses o gasglu data a chodi ymwybyddiaeth o PTSD a chymuned y lluoedd arfog
- Monitro pa mor effeithiol yw trosglwyddo cofnodion meddygol o'r Lluoedd Arfog i feddygon teulu
- Adolygu hyfforddiant staff y GIG i sicrhau bod pawb yn hollol ymwybodol o driniaeth â blaenoriaeth
- Cymorth gwell i gyn-filwyr â PTSD yn y system cyfiawnder troseddol

Un o'r prif ddatblygiadau yng Nghymru ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, yw sefydlu gwasanaeth Veterans NHS Wales ar draws yr holl fyrddau iechyd, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Yn y blynyddoedd diweddar, bu cynnydd hefyd mewn gwaith ymchwil a gwerthusiad o elfennau penodol o gymorth ar gyfer y Lluoedd Arfog, a demograffeg y grŵp hwn **yng Nghymru**. Yn eu plith:

Healthcare and the Armed Forces Community in Wales - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW), 2012[6]
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Care & Support Needs of Veterans in North Wales, 2016[7]
- Call to Mind: Wales – Findings from the Review of Veterans' and their Families' Mental and Related Health Needs in Wales, 2016[8]

Bu croeso mawr i'r holl waith ymchwil hyn, a buont yn werthfawr yn cyflwyno argymhellion a chyd-destun i rai sy'n ymwneud â gweithredu'r Cyfamod. Roedd adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, er enghraifft, yn argymell sefydlu Fforwm y Lluoedd Arfog ym mhob bwrdd iechyd lleol ynghyd â rhwydweithiau iechyd meddwl clinigol. Cawsant eu sefydlu, a bellach maen nhw'n rhan o'r fforymau rhanbarthol ers sawl blwyddyn, sy'n trafod pob agwedd ar y Cyfamod, nid dim ond materion iechyd yn unig.

*Ar lefel y DU*

Yn 2016, fe wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol y DU (LGA) a Forces in Mind Trust gomisiynu cwmni Shared i gynnal ymchwil ar ffyrdd o wella darpariaeth leol Cyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd yr adroddiad – Our Community, Our Covenant[9] - a gefnogwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a llu o elusennau'r Lluoedd Arfog, ei gomisiynu yn sgil pryderon cenedlaethol nad oedd y Cyfamod yn cael ei roi ar waith yn gyson. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o Grŵp Cynghori'r adroddiad.

Fel rhan o'r adroddiad, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth o'r dystiolaeth a oedd ar gael, arolygon o Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ac ymweliadau ymchwil a oedd yn mynd 'at wraidd y mater' â 12 o ardaloedd awdurdod lleol, gan gynnwys awdurdod lleol Wrecsam. Cyflwynwyd cyfres o argymhellion i lywodraeth y DU, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol y DU, Convention of Scottish Local Authorities, awdurdodau lleol a'u partneriaid. O'r 266 o ymatebion a ddaeth i law gan awdurdodau lleol, daeth 13 gan gynghorau Cymru.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Datganiad ynglŷn â disgwyliadau cyfreithlon y Cyfamod - beth mae'n gallu, a ddim yn gallu ei gyflawni
- Cyflwyno cwestiwn yng ngeiriad craidd y Cyfamod fel ffordd o brofi a yw'r unigolyn dan anfantais gymharol neu beidio
- Seilwaith craidd wedi'i fabwysiadu gan gynghorau - fel cyfarfodydd rheolaidd o grŵp cydlynu, ac adolygiadau rheolaidd
- Cyfathrebu gwell rhwng lleoliadau a chynghorau
- Ffordd well o adnabod pobl sydd mewn perygl o wynebu amgylchiadau heriol

Ym mis Mehefin 2017, cafodd ail rifyn o'r adroddiad ei gyhoeddi, yn seiliedig ar ymchwil dilynol. Mae'r fersiwn ddiweddaraf yn cynnwys adnodd hunanasesu gwell ac adolygiad o'r cynnydd ers pan gyhoeddwyd yr adroddiad gwreiddiol. Roedd yr ail rifyn yn cynnwys arolwg manwl o awdurdod lleol yng Nghymru hefyd, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae Deddf y Lluoedd Arfog 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth y DU gyflwyno **Adroddiad Blynyddol** ar weithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog, i senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at y broses hon, gan ddarparu adroddiadau cynnydd blynyddol ac astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at y gwaith a wnaed yng Nghymru i gefnogi cymuned y lluoedd arfog. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth ar Grŵp Cyfeirio Cyfamod y DU hefyd (CRG) sy'n cael ei gadeirio gan Swyddfa'r Cabinet, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau llywodraeth y DU ac elusennau milwrol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi pum adroddiad blynyddol ers 2011. Roedd **adroddiad blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog 2016**[10] yn amlinellu cyflawniadau allweddol o safbwynt Cymru:

- **Gofal iechyd** – buddsoddi £650,000 er mwyn cefnogi gwelliannau mewn therapïau seicolegol
- **Addysg** – sicrhau cyllid i brosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru am y drydedd flwyddyn. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddi £17,450 er mwyn cefnogi myfyrwyr ar gynllun Armed Forces Bereavement Scholarship Scheme
- **Llety** – lansiodd Llywodraeth Cymru ei Llwybr Tai ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd

Ym mis Mai 2017, lansiodd **y Pwyllgor Dethol ar Faterion Amddiffyn** adroddiad[11] yn ymateb i adroddiad blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog 2016 a oedd yn cynnwys argymhelliad *'to ensure that*

[5] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD8408%20-%20Health,%20Wellbeing%20and%20Local%20Government%20Committee%20Report%20on%20Inquiry%20into%20Post-traumatic%20stress%20disor-09022011-209587/cr-ld8408-e-English.pdf
[6] http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/865/Armed%20Forces%20Report%202012-04-03%20-%20English%20-%20Web%20PDF.pdf
[7] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/20161107_Veterans_Needs%28Working%20Draftv0e%29.pdf
[8] http://www.fim-trust.org/wp-content/uploads/2016/06/20160513-Call-to-Mind-Wales-Final-Report.pdf
[9] https://www.local.gov.uk/topics/communities/armed-forces-covenant
[10] https://www.gov.uk/government/publications/armed-forces-covenant-annual-report-2016
[11] https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmdfence/492/49202.htm

*implementation of the Armed Forces Covenant continues to be driven from the centre of Government'.*

Yn ogystal â'r arferion gorau a nodwyd uchod, roedd yr adroddiad yn dweud:

- Y dylai'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, yn hytrach na dwywaith y flwyddyn, ac y dylai gael statws Isbwyllgor ffurfiol yn y Cabinet
- Bod ymwybyddiaeth o **fynediad â blaenoriaeth i ofal iechyd** ar gyfer cyn-filwyr yn parhau'n annigonol
- Dylai **targedau penodol ar gyfer trin salwch meddwl** ac atgyfeirio cyn-filwyr gael eu cyflwyno;
- Bod teuluoedd milwrol yn dal i **wynebu anawsterau o ran sicrhau llefydd mewn ysgolion** y tu allan i'r cylch derbyniadau arferol
- Bod angen **ymgorffori egwyddorion y Cyfamod o fewn llywodraeth leol** ac y dylid monitro cydymffurfiaeth gorfforaethol ag egwyddorion y Cyfamod

Ymatebodd Llywodraeth y DU i bryderon y Pwyllgor Dethol ar Faterion Amddiffyn uchod ym mis Gorffennaf 2017[12]. Roedd prif bwyntiau Llywodraeth y DU yn cynnwys:

- Roedd Llywodraeth y DU yn nodi'r argymhelliad y dylai'r Grŵp Rhyngweinidogol gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a thrafod codi ei statws i Isbwyllgor ffurfiol o'r Cabinet
- O ran **gofal iechyd,** dywedodd Llywodraeth y DU fod y ffurflen berthnasol yng Nghymru bellach yn cynnwys cwestiynau am wasanaeth milwrol fel bod modd adnabod cyn-filwyr yn well wrth gofrestru gyda meddyg teulu. Mae holl staff y GIG yn gallu cael gafael ar fodiwl e-ddysgu am ofal iechyd cyn-filwr, ac mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol i adolygu effeithiolrwydd staff â blaenoriaeth a chodi ymwybyddiaeth
- Mae gan Gymru **Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog** ar bob Bwrdd Iechyd
- Cyfeiriwyd at **Veterans NHS Wales** fel enghraifft o arfer orau a mynediad haws at wasanaethau iechyd meddwl. Mae atgyfeiriadau wedi cynyddu o 191 yn 2010 i dros 600 rhwng 2016 a 2017. Ar hyn o bryd, mae ystyriaethau a ddylai'r gwasanaeth gyflwyno dangosyddion perfformiad i dracio amseroedd aros a chymharu â therapïau seicolegol craidd eilaidd prif ffrwd
- Mae'r **Cod Derbyniadau i Ysgolion** yn sicrhau bod modd derbyn plant i ddosbarth y babanod hanner ffordd drwy'r tymor yng Nghymru, hyd yn oed os yw hyn yn torri'r terfyn maint dosbarth babanod
- Roedd Llywodraeth y DU yn cytuno bod **awdurdodau lleol *'at the forefront of delivering the Armed Forces Covenant.'*** Lle gellir gwneud mwy i wella'r ddarpariaeth leol, nodwyd mai diffyg arweiniad yn hytrach nag amharodrwydd i gefnogi'r Cyfamod oedd yn gyfrifol am hyn. Mae wedi paratoi cynllun gweithredu a fydd yn ysgogi ymhellach y bartneriaeth gyda'r llywodraethau datganoledig
- Cyfeiriwyd at **gynhadledd flynyddol Llywodraeth Cymru** fel enghraifft o gydweithio ac arferion da er mwyn cyflawni amcanion y Cyfamod

[12] https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmdfence/310/31002.htm

**Penderfyniadau i adolygu'r Cyfamod yng Nghymru**

Er gwaetha'r cynnydd ar lefelau Cymru a'r DU, nid oes adolygiad annibynnol o'r cynnydd a'r ddarpariaeth ar draws Cymru gyfan, hyd yn oed bum mlynedd ers sefydlu'r Cyfamod.

Ym mis Medi 2016, fe wnaeth nifer o elusennau'r Lluoedd Arfog[13] yng Nghymru ymateb i gais am ymatebion a sylwadau er mwyn llywio blaenoriaethau **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth** Leol y Cynulliad Cenedlaethol.

Wrth ymateb, dywedodd yr elusennau y byddai cryn rinwedd i'r pwyllgor gynnal adolygiad ar weithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gyda phwyslais ar lywodraeth leol ac asiantaethau partner. Mewn ymateb, dywedodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried pob cynnig wrth wneud penderfyniadau ar ymchwiliadau pellach.

Gan na chafwyd unrhyw awgrym o ymchwiliad i ddod, penderfynodd y Grŵp Trawsbleidiol gynnal yr ymchwiliad a dyma yw testun yr adroddiad hwn.

[13] The Royal British Legion, Alabaré Wales Homes for Veterans, Change Step, SSAFA The Armed Forces Charity , Combat Stress Veterans NHS Wales and Royal British Legion Industries (RBLI).








# ADRAN 2

## CASGLIADAU



# ADRAN 2
## CASGLIADAU

Cafodd yr arolwg, a oedd yn sail i gyflwyniadau i'r ymchwiliad hwn, ei gynllunio i gasglu gwybodaeth gefndir am yr ymatebwyr a'u profiad nhw o'r Cyfamod, eu sylwadau ar ddatblygiadau cadarnhaol wrth ddarparu'r Cyfamod, y meysydd sydd angen eu gwella ac awgrymiadau ymarferol a allai helpu i lywio polisi a chamau gweithredu.

**Crynodeb o'r ymatebion**

### 1. Cyfraniad sefydliadau i'r Cyfamod

Cafwyd 23 o ymatebion i gyd. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau / gweithwyr proffesiynol fel a ganlyn:

- 8 awdurdod lleol
- 7 elusen
- 3 unigolyn o gefndir sector cyhoeddus / Lluoedd Arfog
- 2 gynrychiolydd y GIG (gan gynnwys Veterans NHS Wales)
- 1 milwrol (y tri gwasanaeth)

Roedd cwestiynau 1 a 4 yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi trosolwg o'u cyfraniad unigol hwy at gefnogi cymuned y lluoedd arfog a'u rôl o gyflwyno'r Cyfamod a sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth.

Wrth sôn am eu rôl hwythau'n helpu i gyflwyno'r Cyfamod, dywedodd **awdurdodau lleol** eu bod yn:
- Cydlynu grwpiau llywio a phartneriaethau'r Cyfamod er mwyn cyflwyno'r Cyfamod yn lleol
- Darparu Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog a swyddogion arweiniol er mwyn cyflawni ymrwymiadau'r Cyfamod
- Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyflwyno'r Cyfamod
- Cynnal a / neu weithio gyda Swyddog Cyswllt y Cyfamod wedi'i ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Darparu gwasanaethau allweddol i gymuned y Lluoedd Arfog

O'r **elusennau** a ymatebodd, roedd chwech yn elusennau milwrol ac un yn elusen iechyd meddwl, di-filwrol, rhanbarth benodol. Mae'r elusennau'n darparu pob math o gymorth lles i gymuned y lluoedd arfog gan gynnwys lles cyffredinol, mentora cymheiriaid a chymorth i deuluoedd.

Nododd ymatebwyr yr **heddlu** bod eu rôl nhw'n cynnwys cefnogi'r Cyfamod fel llofnodwyr ac aelodau o grwpiau Cyfamod lleol, codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog a chyfeirio pobl at wasanaethau cymorth perthnasol. Tynnwyd sylw at waith y grŵp Support Transition of Military Personnel (SToMP) o ran llywio materion y Lluoedd Arfog ymlaen ymhlith pedwar o luoedd Heddlu Cymru.

Dywedodd ymatebwyr y **Gwasanaeth Iechyd Gwladol** mai eu prif rôl hwy oedd darparu gwasanaethau i gymunedau'r Lluoedd Arfog a chymryd rhan mewn grwpiau a/neu fforymau Cyfamod lleol, a rhoi ffocws Gweithredol i gyflwyno'r Cyfamod o fewn Byrddau Iechyd.

Mae'r **unigolion** a ymatebodd (pob un ohonynt yn gyn-filwyr) yn hyrwyddo a chynrychioli safbwyntiau cymuned y Lluoedd Arfog ar lefel leol ac yn cydlynu gwasanaethau / hybiau er budd cleientiaid

Yr ymatebydd **milwrol** yw prif bencadlys milwrol y Lluoedd Arfog yng Nghymru, sy'n darparu rôl weithredol, gweinyddol a lles i filwyr sy'n dal i wasanaethu (dim cyfrifoldeb ffurfiol dros gyn-filwyr).

Gallwn gategoreiddio cyfraniad yr ymatebwyr at gyflwyno'r Cyfamod yn y rolau canlynol:

- Darparu gwasanaeth – darparu cymorth a chefnogaeth uniongyrchol ar faterion lles
- Darparu cyngor
- Cynnal, hwyluso neu fynychu cyfarfodydd y Cyfamod
- Rhannu arferion gorau
- Ymgysylltu â chyflogwyr
- Darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau'r Cyfamod
- Cefnogi'r trefniadau llywodraethu er mwyn cyflwyno'r Cyfamod
- Addysgu teuluoedd milwrol am y Cyfamod
- Ymgyrchu
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Cyfamod
- Casglu data
- Cynnal digwyddiadau - ymgysylltu, pontio, Cofio a Coffaol
- Cefnogi ac ymgysylltu ag unedau Milwrol

### 2. Datblygiadau cadarnhaol wrth weithredu'r Cyfamod

Mewn ymateb i Gwestiwn 2 - *What positive developments have you seen in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?* dywedodd ymatebwyr eu bod wedi sylwi ar gynnydd penodol yn y meysydd canlynol:

- Mwy o **gydweithredu lleol a rhanbarthol**
- **Ymwybyddiaeth well ar y cyfan** o anghenion cymuned y lluoedd arfog;
- Datblygu polisi
- Cynnydd mewn prosiectau **wedi'u targedu'n benodol** at gymuned y lluoedd arfog

**Mwy o gydweithredu lleol a rhanbarthol**

Soniodd sawl ymatebydd i'r ymchwiliad fod mwy o gydlynu rhwng sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth hyrwyddo anghenion cyn-filwyr.

Dywedodd un ymatebydd fod y Cyfamod yn **sbardun ar gyfer sawl perthynas waith newydd a llwyddiannus**, tra'r oedd un arall wedi'i blesio gyda lefel y cymorth a'r cymhelliant gan awdurdodau amrywiol i roi'r Cyfamod ar waith.

Mae'r perthnasau hyn wedi'u sefydlu'n bennaf trwy ddatblygu **rhwydweithiau** fel **Fforymau'r Lluoedd Arfog** neu trwy sefydlu **Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog a Swyddogion Arweiniol Lluoedd Arfog yr Awdurdod Lleol.**

Fforymau'r Lluoedd Arfog yn cynnwys cynrychiolwyr Milwrol; Llywodraeth Cymru; y sector addysg; yr heddlu; awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Trefnir fforymau yn ôl rhanbarth.

Dywedodd sawl ymatebydd fod y Fforymau'n ganlyniad cadarnhaol i'r Cyfamod. Fe'u disgrifiwyd fel ffordd o helpu i ddatblygu dull rhanbarthol o weithio a'u bod wedi arwain at ddatblygu grŵp cadarn gyda phwyslais ar wella gwasanaethau i'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr.

Soniwyd am Fforwm Lluoedd Arfog y Gogledd fel enghraifft o arferion gorau. Roedd y fforwm arbennig hwn yn darparu elfen werthfawr a hanfodol o sicrhau bod y momentwm yn parhau gyda'r Cyfamod yn ogystal â sicrhau dull cydgysylltiedig o weithio.

Roedd themâu tebyg am y fforymau lleol a rhanbarthol yn cynnwys dwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid a chydgysylltu gwybodaeth a phartneriaid yn well.

Mae creu **Partneriaeth Cyfamod Ranbarthol** hefyd yn allweddol o ran ymgysylltu â'r sefydliadau cywir i gynnig y cymorth angenrheidiol.

Dywedodd un awdurdod lleol bod y Cyfamod *'has enabled us to create an achievable action plan that has already delivered tangible benefits and provided a focal point for delivery…'*, a dywedodd un arall fod y Cyfamod *'now seen as business as usual within the local authorities' a 'whilst there is regional variation and interest in Wales, the mean level of proactive support and engagement is much higher than a couple of years ago'.*

Ar ben hynny, fel rhan o'r Cyfamod, mae Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog wedi'u penodi gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ynghyd â chyrff eraill, er mwyn darparu ffocws cymorth i gymuned y lluoedd arfog a hyrwyddo eu hanghenion o ran darpariaeth gwasanaethau lleol. Rôl yr Hyrwyddwyr yw gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd, cyn-filwyr, grwpiau gwirfoddol a'r fyddin.

Dywedodd 43% o'r ymatebwyr fod Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn ddatblygiad cadarnhaol o ran cyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru. Dywedodd un fod penodi'r hyrwyddwyr cywir yn cyflwyno'r amodau ar gyfer llwyddiant go iawn, gan arwain at fwy o gydweithio rhwng sefydliadau.

Hefyd, dywedodd eraill fod hyrwyddwyr yn gyswllt defnyddiol i deuluoedd sy'n mynd trwy broblemau penodol. Ychwanegodd ymatebydd arall ei fod wedi'i blesio'n fawr gyda lefel y cymorth a'r cymhelliant gan yr awdurdodau amrywiol.

Dywedodd un awdurdod lleol fod y Cyfamod wedi *'made public services look at the role our Armed Forces play… and how this affects Serving personnel and their families in (our area). The Covenant …makes public services look at the wider needs of veterans, those of recent and younger veterans as well as those we traditionally engage with around Remembrance'.*

**Mwy o ymwybyddiaeth o anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog**

Mae gweithredu'r Cyfamod yng Nghymru wedi arwain at **fwy o ymwybyddiaeth** o anghenion cymuned y lluoedd arfog. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen: cynnydd o ran ymwybyddiaeth **gyhoeddus** law yn llaw â **dealltwriaeth well** ymhlith sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i gyn-filwyr. Dywedodd un ymatebydd fod cynnydd cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o gyn-filwyr, milwyr sy'n dal i wasanaethu a'r problemau sy'n eu hwynebu nhw a'u teuluoedd. Dylid ystyried hyn yn ei gyd-destun, fodd bynnag, o gofio'r materion a godir yn adran 3 yr adroddiad hwn. Mae'r ymatebion ddaeth i law yn awgrymu bod rhaid ystyried ymwybyddiaeth darparwyr gwasanaethau yn nhermau'r ffaith mai ymwybyddiaeth gymysg sydd ganddynt, a'i bod yn isel i ddechrau.

**Diwrnod y Lluoedd Arfog** yw un o'r ffyrdd mwyaf llwyddiannus o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Er bod y diwrnod hwn yn rhagflaenu'r Cyfamod, mae wedi'i gefnogi a'i ategu gan gyfraniad awdurdodau lleol ers gweithredu egwyddorion y Cyfamod.

Wedi'i ddisgrifio'n 'llwyddiant amlwg', mae Diwrnodau'r Lluoedd Arfog yn ddigwyddiad blynyddol yng Nghymru erbyn hyn. Dywedodd un ymatebydd fod gan y digwyddiad hwn fantais ychwanegol o greu syniadau ar gyfer prosiectau newydd. Cyfeiriwyd at gynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog 2018 ym Mwrdeistref Sirol Conwy fel enghraifft o gydweithio gwych a llwyddiant amlwg i Gymru.

Mae **prosiectau hanesyddol** fel ail-greu ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ym Modelwyddan a'r cynllun arfaethedig i agor Amgueddfa Meddygaeth Filwrol ym Mae Caerdydd hefyd yn bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth o hanes y Lluoedd Arfog.

Cafodd **digwyddiadau cofio** eu nodi fel pethau pwysig o ran gwerthfawrogiad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o gymuned y lluoedd arfog. Roedd **'Rhaglen 17'** Llywodraeth Cymru yn fenter gadarnhaol pan lansiwyd cyfres o ddigwyddiadau gydol 2017 i gofio am fywydau'r rhai a wasanaethodd yn y Rhyfel Mawr o bob cwr o Gymru. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiadau mewn partneriaeth â Llywodraeth Fflandrys ynghylch hanes cyffredin Cymru a Gwlad Belg.

Ers cyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru, dywedodd ymatebwyr fod gan rai sy'n darparu gwasanaethau i gyn-filwyr ddealltwriaeth ddyfnach o anghenion milwyr a'u teuluoedd.

Mae cynghorau'n fwyfwy ymwybodol o anghenion cyn-filwyr diolch i **hyfforddiant** gan nifer fach o elusennau, yn enwedig un elusen yn benodol. Canlyniad hyn oedd 'having a positive impact on raising awareness of veteran's needs and commitments to ensuring serving personnel are not discriminated against in housing or education initiatives'.

Mae rhagor o brosiectau parhaol, fel Cyngor Ieuenctid Gwent, a fydd yn cymryd rhan mewn gweithdy gyda SSAFA a Cymru Creations er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Lluoedd Arfog trwy gyfrwng addysg a gweithgareddau oedran priodol.

Mae **dogfennau cymorth penodol** i gyn-filwyr, fel 'Croeso i Gymru' a'r 'Llwybr Tai', wedi bod yn rhan bwysig o godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i gyn-filwyr a'u teuluoedd sy'n symud i Gymru.

Cafodd y **Porth i Gyn-filwyr** ei ddisgrifio fel datblygiad cadarnhaol iawn sy'n darparu pwynt cyswllt canolog. Hefyd, mae'r **Armed Forces Employability Pathway** yn datblygu momentwm.

Mae grwpiau fel y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu cymuned y lluoedd arfog. Mae cyfathrebu â'r Prif Weinidog yn cyfrannu ymhellach at hyn, tra bod Cynllun Lluoedd Arfog y Cynulliad wedi dechrau'n addawol, yn ôl yr ymateb.

Cafodd **llinellau cymorth wedi'u teilwra** a sefydlwyd gan awdurdodau lleol eu nodi'n ddatblygiad cadarnhaol ac yn esiampl o ddarpariaeth leol.

**Polisi**

Yn y **system cyfiawnder troseddol**, mae'r Cyfamod wedi gweld cynnydd o ran ffocws a ffordd o feddwl ('focus and thought') wrth nodi aelodau o gymuned y lluoedd arfog sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn rhai o ranbarthau Cymru. Cafodd Endeavour Unit yng Ngharchar y Parc, sy'n cadw cyn-filwyr a throseddwyr tro cyntaf, a gwaith diweddar yng Ngharchar y Berwyn a oedd yn canolbwyntio ar gymorth i gyn-filwyr, eu nodi fel arferion rhagorol yng Nghymru.

Mae Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru yn fenter lwyddiannus yn y polisi **addysg.** Wedi'i sefydlu yn 2014, nod y prosiect yw sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn deall y materion sy'n wynebu plant milwyr Cymreig. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan gronfa cymorth addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn tan 2018. Mae'n gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, teuluoedd y Lluoedd Arfog a sefydliadau cymorth, ac yn comisiynu gwaith ymchwil, canllawiau ac adnoddau i ysgolion a theuluoedd.

Mae **Veterans NHS Wales** yn darparu triniaeth iechyd meddwl ar sail tystiolaeth i gyn-filwyr yma yng Nghymru. Cafodd **Veterans Mental Health Network** ei ganmol fel rhwydwaith allweddol sy'n llwyfan ar gyfer adborth onest ac adeiladol ar faterion allweddol. Tynnwyd sylw at gysylltiadau rhagorol y gwasanaeth â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, a'r ffaith mai'r dyma'r unig wasanaeth iechyd meddwl cenedlaethol ac integredig yn y DU.

Galwodd nifer o ymatebwyr i fodel y Gogledd o gynnwys mentora cymheiriaid o fewn Veterans NHS Wales gael ei ystyried fel opsiwn Cymru gyfan, yn dilyn gwerthusiadau perthnasol. Yn y Gogledd, mae gwasanaeth CAIS yn darparu **Listen In Service** ar gyfer perthnasau cyn-filwyr sy'n dioddef o PTSD, ac roedd un ymatebydd yn croesawu hyn yn fawr iawn.

Mae **Change Step** yn gwneud cyfraniad pwysig gan helpu i gyflawni'r polisïau hyn. Fel elusen a ddarperir gan gyn-filwyr ar gyfer cyn-filwyr, mae'r sefydliad yn cynnwys gwasanaeth mentora gan gymheiriaid a chymorth i gael gafael ar wasanaethau perthnasol mewn meysydd fel iechyd meddwl, cyfiawnder troseddol a phroblemau tai.

Mae sefydlu **Veteran's Sheds** hefyd yn gam pwysig o ran cynnig lle cymunedol i gyn-filwyr gwrdd â swyddogion eraill y fyddin a gweithio ar brosiectau. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant trwy leihau unigrwydd a chysylltu aelodau o'r fyddin, fel y gallant sgwrsio ag eraill sydd wedi mynd drwy'r un profiad â nhw.

**Cynnydd mewn prosiectau penodol a dargedir ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog**

Ers 2013, mae **Cynllun Grant y Cyfamod** wedi sicrhau bron i £3 miliwn o nawdd i Gymru, gan gefnogi prosiectau lleol a chenedlaethol a gwasanaethau newydd nad oeddent ar gael o'r blaen.

Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi pob math o brosiectau bach a mawr mewn meysydd fel tai, cyfiawnder cymdeithasol, cyflogaeth a mentora cymheiriaid ac mae hefyd wedi helpu awdurdodau lleol i hyrwyddo'r Cyfamod trwy ariannu deunyddiau cyhoeddusrwydd. Yn ôl un ymatebydd: *'we very much welcome the input that the MoD has given regarding funding to support this agenda. The recent stream of funding for local authorities gives us the opportunity to embed the Covenant in our organisations and by this method, our communities'.*

Ymhlith y rhai sydd wedi elwa ar yr arian hwn mae CAIS Wales a Change Step Veteran Services, sy'n darparu llwybr atgyfeirio i gyn-filwyr yng Nghymru yn 2016.

Ym maes tai, defnyddiwyd cyllid y Cyfamod i roi **cymorth tai** i gyn-filwyr yng Nghymru. Dywedodd un fod hyn wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Opsiynau Tai.

Mae cyllid y Cyfamod o gronfa LIBOT, er enghraifft, wedi arwain at greu sawl prosiect a menter tai. Defnyddiodd Alabaré £976,269 a ddyrannwyd iddynt i gefnogi'r gwaith o ddarparu llety â chymorth i gyn-filwyr sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod felly.

Mae Alabaré yn darparu'r prosiectau hyn gyda chymdeithas tai First Choice. Nododd un ymatebydd fanteision gweithio mewn partneriaeth wrth ddatblygu dau brosiect yn Wrecsam: *'one supports veteran's transition from military to civilian life, along with those experiencing mental health difficulties, whilst the second offers veterans employment skills by being a self-build project'.*

Mae arian y Cyfamod hefyd wedi'i ddefnyddio i gynnal **rhagor o waith ymchwil** i gymuned y lluoedd arfog, gan gynnwys cyllid gan Forces in Mind Trust tuag at brosiect ymchwil sy'n archwilio'r problemau sy'n wynebu cyn-filwyr sy'n pontio o fyd milwrol i fyd sifilaidd. Bydd yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth penodol i gyn-filwyr.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **gynllun nofio am ddim** ar gyfer milwyr y Lluoedd Arfog yng nghyfleusterau hamdden awdurdodau lleol. Dywedodd un ymatebydd fod hwn yn ymarfer gwerth chweil.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y **cynllun teithio ar fysiau am ddim** i gynnwys cyn-filwyr a milwyr ag anafiadau yn sgil eu gwasanaeth.



### 3. Meysydd lle bu diffyg cynnydd wrth weithredu'r Cyfamod

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 3 - *Where has progress been lacking in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?* wedi'u crynhoi isod:

Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaeth pob ymatebydd nodi sawl datblygiad cadarnhaol wrth gyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo bod diffyg cynnydd o hyd mewn rhai meysydd, a bod hynny'n llesteirio darpariaeth leol a chenedlaethol.

**Diffyg cysondeb ac amrywiaeth**

Dywedodd sawl ymatebydd fod diffyg cysondeb o hyd yn y ddarpariaeth yng Nghymru, gyda thraean ohonynt yn nodi'r pwynt hwn. Mae'r anghysondeb hwn yn cynnwys sawl elfen, gan gynnwys y rhagdybiaeth bod **amrywiaeth o ran cyflwyno'r** Cyfamod gan awdurdodau lleol a phartneriaid, ac **allbwn a chefnogaeth anghyson** gan Hyrwyddwyr a/neu Fforymau'r Lluoedd Arfog mewn rhai ardaloedd.

O ran rolau penodol y lluoedd arfog, roedd ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio nad beirniadu deiliaid y rolau dan sylw oedden nhw mewn gwirionedd ond cydnabod mai rhywbeth ategol i'w swydd gyfredol oedd y rôl gysylltiedig â'r lluoedd arfog, heb fod **adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu** i gwmpasu'r gwaith hwn yn benodol.

Dywedodd un ymatebydd sy'n cynnwys Cymru gyfan, fod yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol gwahanol wedi mynd i'r afael ag addewidion y Cyfamod mewn ffordd wahanol, gyda rhai'n *'notably less active in promoting the Covenant than others….some local authorities have chosen to make the lead officer role a secondary responsibility which inevitably leads to their Covenant duties occasionally being superseded by higher priority issues'.*

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr amrywiaethau lleol o ran **pa mor aml roedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu, faint sy'n mynychu cyfarfodydd a chefnogaeth leol gan sefydliadau partner.** Ar ben hyn, roedd pryderon am ddiffyg gweithio mewn partneriaeth mewn rhai ardaloedd, er bod fforwm i rannu arferion gorau a chydlynu gwaith o'r fath ar gael i bob sefydliad perthnasol erbyn hyn.

Yn ôl un ymatebydd o'r awdurdodau lleol: *'improved governance of regional and national arrangements and specifically how they translate to and interact with the local level (i.e. local authority) would, we believe enable a more coordinated approach to the delivery of the aims of the Covenant'.*

Roedd cynllun 'nofio am ddim' Llywodraeth Cymru i'r Lluoedd Arfog yn enghraifft o'r ddarpariaeth anghyson gan un awdurdod lleol. Dyma ymateb un awdurdod lleol:

> *'One example of inconsistency in delivery is the funding for free swimming announced by Welsh Government. This has not been adopted by the Leisure Trust in (local authority) to date as it is deemed too expensive for the Trust to open out to members of the Armed Forces and their families. However there is some free swimming for younger and older members of the community through other schemes so some of the Armed Forces community do benefit'.*

Cydnabuwyd bod y ddarpariaeth amrywiol yn gallu dibynnu ar bresenoldeb amlwg a gweladwy'r Lluoedd Arfog yn lleol, er enghraifft, lle mae canolfan neu dref y Lluoedd Arfog a lle mae milwyr sy'n dal i wasanaethu a chyn-filwyr yn amlygu eu hunain neu ddim. Roedd gwahaniaethau o'r fath hefyd wedi'u gwaethygu gan lai o adnodddau: *'extenuated by reducing resources within local authorities and other public services, and the role of the Armed Forces Covenant officers, only forming a small part of someone's full time role'.*

Hefyd, nododd ymatebwyr fod **gwefannau a deunyddiau print** Cyfamod lleol yn aml yn anghyson neu'n rhy hen, ac felly'n darparu darlun cymysg neu anghyflawn o'r cymorth sydd ar gael.

O ran y Lluoedd wrth Gefn a rhai sy'n gwirfoddoli gyda'r Cadetiaid, nodwyd bod agweddau anghyson o hyd o fewn awdurdodau lleol ynghylch darparu absenoldeb arbennig i fynychu hyfforddiant. Teimlwyd bod angen polisi mwy cyson i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gadetiaid: *'…ensure that some of the most challenged young people are made aware of the opportunities for fun and personal development that exist'.*

Cafodd **triniaeth â blaenoriaeth** yn y gwasanaeth iechyd i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog ag anaf a achoswyd gan wasanaeth milwrol ei nodi fel maes lle bu diffyg cynnydd. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r broblem o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Cyfamod a chymuned y Lluoedd Arfog.

Cyfeiriodd un elusen at waith ymchwil rhwng 2009 a 2016 a welodd fod ymwybyddiaeth o bolisi yn wael ar y cyfan ac yn gymysg dros ben ar draws y gwasanaeth iechyd. Ychwanegodd fod ffigurau o'r fath yn siomedig: *'disappointing and highlight that despite the fact that health boards and all partners have been engaged on the Covenant, it appears that understanding of this key principle remains very patchy across the NHS in wales and the UK as a whole'.*

Soniodd ymatebydd arall am broblem lle nad yw meddygon teulu na chofnodion meddygol yn holi cleifion a fuon nhw yn y Lluoedd Arfog o gwbl, fel mater o drefn. Cyfeiriodd ymatebydd arall at broblem mynediad at ofal iechyd ar gyfer teuluoedd milwyr sydd wedi gorfod symud cartref oherwydd dyletswyddau milwrol. Roedd ansicrwydd ynghylch sut gallai hyn effeithio ar asesiadau pediatreg cymunedol, cymorth salwch meddwl a safle rhywun ar restri aros am driniaethau, yn destun pryder hefyd.

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi cyflwyno rhestr wirio polisi i awdurdodau lleol sy'n cynnwys pum cam gweithredu ar bolisi y gellir eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Cyfamod. Hefyd, mae'r elusen wedi cyhoeddi dau ganllaw arferion gorau manwl. Fodd bynnag, does dim gofynion penodol o ran y ddarpariaeth leol, ac ar y cyfan, dewisol yw hi o ran pa mor bell aiff awdurdodau lleol a phartneriaid i gyflwyno'r Cyfamod.

Nodwyd hefyd fod angen i gymuned y lluoedd arfog **reoli disgwyliadau** a bod angen gwneud rhagor o waith ar hyn mewn rhai achosion. Nodwyd enghreifftiau fel tai a thriniaeth â blaenoriaeth yn y GIG er mwyn sicrhau bod gan gyn-filwyr ddisgwyliadau realistig o ran 'triniaeth arbenigol'.

**Diffyg ymwybyddiaeth**

Yn yr ymatebion a ddaeth i law, mater arall sy'n cyd-fynd yn agos â phroblem darpariaeth anghyson yw'r **diffyg ymwybyddiaeth leol** o beth mae'r Cyfamod yn ei olygu'n ymarferol a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â chymuned y Lluoedd Arfog

Roedd y ffaith nad oes gan staff rheng flaen awdurdodau lleol a darparwyr eraill ddealltwriaeth neu wybodaeth am y Cyfamod yn broblem, gan bwysleisio'r ffaith fod diffyg cymorth hyfforddiant yn cael ei roi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno'r Cyfamod. Yn ôl un ymatebydd:

> *'(local authority staff) are often the first point of contact for the family or veteran and it is vital they ask the right questions and have an understanding of how the Covenant works'.*

Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol am geisio lledaenu gwybodaeth yn well trwy gyfarfodydd Cymru gyfan o'r Cyfamod, sy'n cynnwys yr holl bartneriaid lleol. Fodd bynnag, roedd ymatebydd arall yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith gyda staff rheng flaen o hyd:

> *'Some applicants for (charity) help have commented that front-line staff in certain public service offices, for example, local authority housing departments, appear to have no knowledge of the Covenant. This has led to the conclusion that the Covenant principles, although accepted at higher echelons of authorities, have not been cascaded down effectively to the front-line staff'.*

Dyma awgrym un ymatebydd awdurdod lleol er mwyn prif ffrydio gwaith y lluoedd arfog:

> *'In order that veteran needs are really recognised within local authorities the work has to be embedded in policy with Key Performance Indicators (KPIs) and targets set by Welsh Government'.*

Ynghlwm wrth hyn, roedd angen proses **hyrwyddo well** er mwyn hybu'r Cyfamod. Teimlwyd y byddai'r ddarpariaeth yn elwa pe bai amcanion y Cyfamod yn cael eu hyrwyddo'n well i sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, y cyhoedd a chyn-filwyr, a sut i ddatblygu gwasanaethau i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

**Data gwael am gymuned y Lluoedd Arfog**

Dywedodd chwarter yr ymatebwyr fod diffyg **data dibynadwy** am gymuned y lluoedd arfog yn atal gwaith cynllunio a chyflawni ar lefel leol.

Mae hwn yn fater sydd wedi'i godi droeon ar lefel leol, ranbarthol, Cymru, a'r DU byth ers i'r Cyfamod ddod i rym, ac mae'n destun pryder i awdurdodau lleol, elusennau a darparwyr eraill. Yn wir, mae'n destun ymgyrch gan y Lleng Brydeinig Frenhinol i sicrhau bod y cyfrifiad nesaf yn 2021 yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i gael cipolwg ar ddata ar lefel awdurdodau lleol ledled y DU, o ran maint ac anghenion cymuned y lluoedd arfog.

I ategu'r pwynt, meddai un ymatebydd awdurdod lleol:

> *'The evidence base is key in ensuring that we are reaching our armed forces community and tailoring our services to their needs.'*

Ychwanegodd un arall fod diffyg cynnydd o ran gwybodaeth am nifer y cyn-filwyr a'u lleoliadau, tra dywedodd un arall:

> *'there remains a lack of consistent identification of the armed forces community in the statutory sector or amongst organisations who may be delivering a statutory service such as housing….whilst there has been progress in certain areas, for example, in some GP surgeries and regions asking the question on forms in some local authority contact centres, (but) a lack of consistency remains across Wales.'*

Nododd un ymatebydd fod y Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan yng Nghymru bellach yn cynnwys cwestiwn am gymuned y Lluoedd Arfog, a'i fod wedi'i gynllunio i nodi'r cyn-filwyr hynny sy'n cysgu ar y strydoedd. Cafodd y newid hwn gan Lywodraeth Cymru ei ganmol, er nad oes unrhyw ddata o'r cyfrif yn 2016 wedi'i ryddhau eto. Mae dwy elfen negyddol i hyn; y ffaith nad yw darparwyr yn gwybod faint o gyn-filwyr sy'n cysgu allan yn lleol, ac y gallai rhagdybiaethau negyddol am nifer y cyn-filwyr sy'n cysgu allan godi heb dystiolaeth i gefnogi hynny.

**Cyllid**

Roedd ymatebwyr yn cydnabod y manteision sylweddol a ddaeth yn sgil cynyddu'r cyllid penodol sy'n cefnogi cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru, trwy gynllun Grantiau Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn a chyllid LIBOR (gweler adran 1).

Er hynny, codwyd nifer o bryderon yn ymwneud â dyrannu'r cymorth ariannol a'r rhagdybiaethau negyddol posib, gan gynnwys:

- Cyllid anghynaliadwy; pryderon bod dyrannu cyllid i brosiectau newydd wedi helpu i sefydlu gwasanaethau heb gynnig unrhyw gynaliadwyedd neu ddiogelwch ariannol

- Diffyg arian penodol wedi'i dargedu ar gyfer gweithgareddau craidd awdurdodau lleol sy'n cefnogi'r Cyfamod
- Dim cyllid penodol ar gyfer plant milwyr yng Nghymru, heblaw am grantiau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Buddsoddiad annigonol mewn gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr

Cafodd cyllid cynaliadwy ei nodi gan sawl ymatebydd a oedd yn poeni y gall fod yn anodd parhau â'r gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru dan y modelau presennol:

> *'Sustainability is a clear issue for veteran support. Many projects have been supported via the Covenant fund and LIBOR, and the projects have been successful and the model of working effective. However funding is only for new projects so sustainability continues to be a challenge'.*

Yn ôl un ymatebydd: *'(We have) also seen missed opportunities to make best use of funding applications to support the armed forces community across Wales and in some cases this has led to development of unsustainable programmes and projects which leave capability gaps after funding has ceased'.*

Roedd ymatebydd arall yn poeni fod cyllid i'w weld yn ffafrio ardaloedd sy'n cynnwys canolfannau milwrol a chymuned amlwg o filwyr sy'n gwasanaethu. Cododd un ymatebydd bryderon am y gweithdrefnau fetio sydd ynghlwm wrth geisiadau am arian y Cyfamod a LIBOR.

Fe wnaeth sawl ymatebydd leisio pryderon am **ddiffyg cyllid** ar gyfer meysydd penodol. Roedd meysydd allweddol yn cynnwys **cymorth iechyd meddwl** fel cyllid tuag at Veterans NHS Wales.

Tra'n cydnabod rhagor o fuddsoddiad yn y gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diweddar, roedd un ymatebydd yn poeni nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ariannu i lefel sy'n ateb y galw neu'n sicrhau cynaliadwyedd.

Dywedodd ymatebydd arall nad yw atgyfeiriad i driniaeth (amseroedd aros) yn ddigon da, a bod y gallu i gael triniaeth ddilynol os yw claf yn cael ail bwl o salwch lawn mor wael.

Er enghraifft, dyma amseroedd aros am driniaeth Veterans NHS Wales ym mis Medi 2017, ar gyfer pob bwrdd iechyd:

| Bwrdd Iechyd | Amseroedd Aros |
|---|---|
| Cardiff and Vale | 4 wythnos |
| Abertawe Bro Morgannwg | 38 wythnos |
| Aneurin Bevan | 9 wythnos |
| Betsi Cadwaladr | 7 months |
| Cwm Taf | 2 wythnos |
| Hywel Dda | 10.5 wythnos |

Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen am gyllid i gefnogi **plant milwyr** yng Nghymru hefyd. Dywedodd un ymatebydd y dylai bod: *'targeted pupil funding for Service children in Wales to support their transition into a new school and to support them when experiencing the challenges of service life'*. Another raised the issue of *'schools with Service children in England receive a Service Pupil premium of £300 per child annually. This does not apply in Wales'.*

Roedd diwedd cronfa Cymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn fater o bwys mawr, gan fod y gronfa honno wedi cefnogi gwaith rhagorol yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar.

Roedd rhai'n poeni am y methiant cyfredol i nodi plant milwyr yng Nghymru yn y cyfrifiad ysgolion, a'r ffaith y gallai hyn arwain at beidio â chynnig cymorth angenrheidiol i blant milwyr. Hefyd, codwyd pryderon am broblemau'n ymwneud â'r cyllid ar gyfer **Anghenion Addysgol Arbennig** ac **Anghenion Dysgu Ychwanegol**, o gofio bod teuluoedd yn gorfod ailgyflwyno cais am gymorth wrth symud i Gymru, gan arwain at oedi i'r teulu a'r plentyn dan sylw.

Dywedodd sawl ymatebydd fod angen gweithredu ymhellach er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i **deuluoedd**. Yn ogystal â phant milwyr fel uchod, cyfeiriwyd at **gyplau priod sydd wedi ysgaru** ynghyd â phryderon penodol am fethiant y Cyfamod, a darparwyr gwasanaethau lleol, i gydnabod aberth y grŵp hwn o bobl. Nodwyd hyn yn benodol mewn perthynas â chymorth tai a chysylltiadau lleol, gyda'r unigolion hynny dan anfantais oherwydd gwasanaeth eu cyn-ŵr/gwraig wrth geisio cael gafael ar gymorth o'r fath ar ôl gwahanu.

Roedd un elusen yn ymwybodol o achosion lle'r oedd gŵyr/gwragedd wedi ysgaru wedi clywed y canlynol: *'have been told they are not entitled to housing support as they have no local connection to an area, despite having lived there whilst their former partner was in Service'. Another charity called for 'separated Service spouses to be offered a waiver on the requirement for a local connection when applying for social housing on leaving Service Family Accommodation'.*

Cafodd mynediad teuluoedd milwyr at ofal iechyd hefyd ei nodi fel maes i gadw llygad arno, o ran trosglwyddo amseroedd aros pan mae teuluoedd yn symud i Gymru.

### Cydlynu a llywodraethu canolog

Roedd traean o'r ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o gydlynu a chyfeiriad wrth gyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru. Er i waith Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o geisio gwella hyn ei gydnabod, teimlwyd bod modd gwneud mwy i ddarparu cyfeiriad a chanlyniadau clir. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys:

- Diffyg cydlyniant, unffurfiaeth a rheolaeth ganolog sy'n arwain at ddarpariaeth anghyson;
- Diffyg cyfeiriad a gormod o sefydliadau'n ymwneud â'r ddarpariaeth;
- Angen mwy o gydraddoldeb a chysondeb ledled Cymru;
- Llai o rolau penodol â chyfrifoldeb dros y Cyfamod yn lleol neu'n genedlaethol
- Angen llywodraethu trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn well er mwyn darparu dull mwy cydgysylltiedig o weithio;

Dywedodd un ymatebydd fod diffyg cydlyniant, unffurfiaeth a rheolaeth ganolog a bod angen mwy o gysylltiadau ag adrannaufel Addysg, yr Economi a Seilwaith yn Llywodraeth Cymru ynghyd â'r briff presennol y mae'r Lluoedd Arfog yn rhan ohono, sef Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd, nodwyd: *'three-tier local, regional and Expert Group system depends on regular meetings at all levels to allow ideas, information and proposals to be collated, regional priorities established… not all groups are meeting regularly'.*

Dywedodd ymatebydd arall bod angen gwell llywodraethu sy'n ystyried trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig sut maen nhw'n trosi i, ac yn rhyngweithio ar lefel leol. Yn ôl un ymatebydd, roedd diffyg cyfeiriad, cymorth a chydlynu wrth ddatblygu ac integreiddio dull cydgysylltiedig ledled Cymru.

## Awgrymiadau ar gyfer gwella

Mewn ymateb i Gwestiwn 5 - *What three practical suggestions would you like to see implemented to support the armed forces community in Wales via the Covenant?* gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno tri awgrym ymarferol yn seiliedig ar eu profiadau nhw eu hunain, er mwyn cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog yma yng Nghymru.

Mae'r awgrymiadau wedi'u hamlinellu isod, a'u grwpio fesul thema:

**Atebolrwydd**
- Llywodraeth Cymru i weithredu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau i'w cyflawni gan awdurdodau lleol er mwyn bodloni ymrwymiad y Cyfamod;
- Monitro cynnydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol y Gogledd cyn iddynt baratoi i weithredu grŵp prif ffrwd waith ar gyfer cyn-filwyr;
- Amcanion mwy penodol gan y Cyfamod;
- Yn dilyn adolygiad, parhau â swyddi'r swyddogion parhaol er mwyn sicrhau bod y Cyfamod yn cael ei weithredu'n gyson;
- Cadw llygad ar y broses o weithredu'r Cyfamod trwy swyddogion cyswllt y Cyfamod yn paratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i Grŵp Arbenigol Gweinidogol;
- Ystyried penodi Comisiynydd y Cyn-filwyr i ysgogi newid a chydymffurfiaeth;
- Sefydlu corff rheoleiddio Cyn-filwyr i Gymru;
- Sicrhau bod holl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn darparu canlyniadau am broffil, dadansoddiad o anghenion a chynlluniau gweithredu eu cymuned lluoedd arfog eu hunain, yn uniongyrchol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

**Gwybodaeth, data a hyfforddiant**
- Parhau â gwaith ymchwil a datblygu cymuned y lluoedd arfog a'u teuluoedd;
- Hyfforddiant, ar ffurf cwrs hyfforddiant e-ddysgu cyson ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus i sicrhau cysondeb;
- Gwaith mapio Cymru gyfan er mwyn nodi anghenion cyn-filwyr.
- Pob awdurdod lleol a chorff statudol yn darparu hyfforddiant gorfodol ar y Cyfamod;
- Mwy o gymorth a hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog sy'n cynnwys milwyr sy'n dal i wasanaethu, eu teuluoedd a chyn-filwyr;
- Cynhyrchu Cerdyn i'r Lluoedd Arfog er mwyn hyrwyddo dull adnabod.

**Cydlynu ar lefel Llywodraeth Leol**
- Gwybodaeth glir ar y Cyfamod i staff awdurdodau lleol;
- Llinell ffôn ar gyfer cyn-filwyr sydd wedi'u siomi gan awdurdod o safbwynt darpariaethau'r Cyfamod;
- Mwy o adnoddau dynodedig ar lefel awdurdod lleol fel swyddog cyswllt rhanbarthol y Lluoedd Arfog.
- Anelu at sicrhau bod hwn yn waith statudol ledled yr awdurdodau lleol;
- Cyflogi Swyddogion Datblygu a Chyswllt y Lluoedd Arfog ym mhob awdurdod lleol a bwrdd iechyd, a chysoni'r manylebau swyddi a thaliadau cydnabyddiaeth;
- Sicrhau bod Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn sicrhau bod eu hawdurdodau lleol yn ymaelodi â'r RFCA;
- Sicrhau bod holl fforymau'r Cyfamod yn cael eu cadeirio gan naill ai'r Hyrwyddwr neu gynrychiolydd o'r sector cyhoeddus.

**Cydlynu cenedlaethol**
- Ymgyrch genedlaethol i annog proses o hunanddatgeliad wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod cwestiynau'n cael eu gofyn yn gyson ledled sefydliadau;
- Mwy o eglurder a chysylltiad ffurfiol rhwng cyfarfodydd a grwpiau Cyfamod lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Strategaeth genedlaethol i Gymru, gan gynnwys cyllid, er mwyn cefnogi nodau ac amcanion hirdymor;
- Comisiynydd y Lluoedd Arfog.

**Cyflwyno gwasanaethau**
- Llwybr atgyfeirio integredig i wasanaethau ar gyfer cymuned y lluoedd Arfog, gan sicrhau bod pob cyswllt lleol yn cael eu gwneud a bod baich y profi ar y darparwr gwasanaethau yn hytrach na'r unigolyn a/neu'r teulu;
- Dealltwriaeth well o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno mewn cymunedau;
- Defnyddio hybiau cymunedol a grwpiau cymorth i gyn-filwyr er mwyn darparu gwasanaethau;
- Sicrhau bod gan oedolion sy'n gwirfoddoli dros y Cadetiaid yr un hawl â chydweithwyr sy'n gwirfoddoli i'r fyddin wrth gefn i gael absenoldeb arbennig;
- Cymorth a chyfleoedd rhwydweithio ychwanegol i sefydliadau sydd wedi llofnodi'r Cyfamod, er mwyn rhannu arferion gorau a goresgyn rhwystrau.

**Cyllid a phrosiectau**
- Aelodaeth am ddim o'r gampfa;
- Nofio am ddim i barhau;
- Mwy o gynlluniau llety penodol i gyn-filwyr;
- Cyllid Llywodraeth Leol i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni dyletswyddau a digwyddiadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Cyfamod;
- System grantiau sy'n fwy hygyrch i grwpiau lleol mewn ardaloedd heb ganolfannau milwrol;
- Ystyried sut i symud at ddull mwy cynaliadwy o weithio yn hytrach na dibynnu ar gyllid tymor byr gan y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- Dylai ffioedd claddu ac amlosgi awdurdodau lleol gael eu hepgor i gyn-filwyr.


**Cysylltiadau cyhoeddus**
- Gwybodaeth hyrwyddo ddwyieithog, fel logo a chyhoeddusrwydd dwyieithog y Cyfamod;
- Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ail-ymsefydlu;
- Cynnal digwyddiadau cenedlaethol y Cyfamod a'r Lluoedd Arfog mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru;
- Gwaith pellach i godi proffil y Cyfamod ac amlinellu'r hyn mae'n ei wneud a ddim yn ei gynnig;
- Cydnabyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi cyn-filwyr ar lawr gwlad yng Nghymru.

**Pontio i fyd sifilaidd**
- Cydweithio pellach â'r Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn datblygu gwybodaeth am fynediad lleol i wasanaethau a chyfleoedd gwaith i rai sy'n gadael y lluoedd arfog;
- Mwy o gymorth i rai sy'n gadael y lluoedd arfog yn nhermau addasu i fywyd sifiliad.

**Teulu ac addysg**
- Sicrhau nad oes angen i wŷr/gwragedd sydd wedi gwahanu ddangos cysylltiad lleol wrth gael gafael ar gartref lleol, ar ôl gadael llety i deuluoedd milwyr;
- Ystyried Premiwm Disgyblion i deuluoedd milwrol yng Nghymru;
- Sefydlu polisi mynediad mwy cyson ar gyfer lluoedd y cadetiaid, er mwyn creu sbardun i sicrhau bod y bobl ifanc mwyaf heriol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael gyda'r cadetiaid;
- Diwygio'r Cod Derbyniadau i Ysgolion ar gyfer ysgolion uwchradd.

**Iechyd**
- Dylid ailgyflwyno Cylchlythyr Iechyd Cymru am Driniaeth â Blaenoriaeth gyda chyfarwyddiadau clir i feddygon teulu ar pryd a sut i atgyfeirio cyn-filwyr - dylid casglu data bob blwyddyn a'i adrodd i Ysgrifenyddion y Cabinet â chyfrifoldeb dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a phlant a'i gyhoeddi i'r cyhoedd.

**Cyfiawnder Troseddol**
- Cefnogi cyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol gydag ymyriadau addas i leihau aildroseddu.




ADRAN 3

ADDEWIDION

# ADRAN 3

## ADDEWIDION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gafwyd, mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn gwneud yr argymhellion canlynol i wella'r broses o gyflwyno'r Cyfamod yng Nghymru (mae'r argymhellion allweddol mewn blychau):

### Cynnal y Cyfamod

1. **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried penodi Comisiynydd y Lluoedd Arfog ar gyfer Cymru er mwyn gwella atebolrwydd sefydliadau'r sector cyhoeddus wrth weithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog. Dylai'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gydymffurfio â'r Cyfamod. Dylai'r adroddiad dynnu sylw at enghreifftiau o arferion gorau yng Nghymru, defnyddio esiamplau rhyngwladol o gymorth i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd; a gwneud argymhellion at y dyfodol.**

2. Dylai Llywodraeth Cymru bennu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yng Nghymru er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r Cyfamod. Dylid datblygu'r rhain mewn partneriaeth â'r Lluoedd Arfog a rhanddeiliaid eraill, a'u cyhoeddi'n achlysurol i'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ac yn flynyddol ar wefan gyhoeddus.

3. Mae angen canmol Llywodraeth Cymru am fenter *'Croeso i Gymru'* ond dylid ategu hyn gydag un llinell gymorth genedlaethol i'r Lluoedd Arfog er mwyn darparu cyngor a gwybodaeth i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Dylid cyflawni hyn trwy ymestyn cwmpas menter gyfredol y Porth i Gyn-filwyr.

4. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial posib grantiau sy'n cael eu dyfarnu gan Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol er mwyn nodi prosiectau â blaenoriaeth a chydlynu ceisiadau ariannol ar lefel Cymru gyfan.

5. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu modiwl e-ddysgu gorfodol traws sector cyhoeddus er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog ymhlith staff rheng flaen y sector cyhoeddus, hyrwyddo cysylltiadau atgyfeirio rhwng darparwyr statudol a chynorthwyo asiantaethau.

### Nodi maint ac anghenion cymuned y Lluoedd Arfog

6. **Ymhellach at y cyhoeddiad diweddar am fwriad i gynnwys cwestiynau am gymuned y lluoedd arfog yng Nghyfrifiad 2021, dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n ddigonol i nodi maint ac anghenion cymuned y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yng Nghymru.**

7. Dylid sefydlu cynllun cerdyn braint i Luoedd Arfog Cymru, fel dull adnabod i filwyr a chyn-filwyr. Dylid defnyddio'r cerdyn i gefnogi mynediad i'r breintiau arbennig sydd ar gael i filwyr eisoes, fel nofio am ddim a theithio rhatach ar fysiau a blaenoriaeth i driniaeth GIG ar gyfer rhai ag anafiadau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y lluoedd arfog.

8. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru annog sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a phreifat i ymestyn breintiau pellach i filwyr a chyn-filwyr yn y dyfodol, fel gostyngiadau ar nwyddau a gwasanaethau, mynediad am ddim i holl amgueddfeydd milwrol Cymru, a hepgor ffioedd claddu ac amlosgi mewn mynwentydd ac amlosgfeydd sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

## Iechyd a llesiant

**9. O gofio pryderon am allu Veterans NHS Wales i ateb gofynion cleifion, a'r amseroedd aros amrywiol i gael gafael ar gymorth, dylid adolygu a chynyddu cyllid ar gyfer y gwasanaeth a phennu targedau mynediad i'r gwasanaeth. Dylai perfformiad yn erbyn y targedau gael eu cyhoeddi'n rheolaidd at ddibenion craffu.**

10. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn codi rhagor o ymwybyddiaeth am driniaeth â blaenoriaeth y GIG ar gyfer anafiadau a salwch cysylltiedig â gwasanaeth milwrol, ymhlith staff y gwasanaeth iechyd.

11. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw aelodau o deuluoedd milwyr sy'n cael eu hanfon i Gymru, ac sydd ar restr aros y GIG, dan anfantais o orfod disgwyl yn hirach am asesiad, brawf neu driniaeth o gymharu â'u sefyllfa cyn symud i Gymru.

12. O gofio llwyddiant cynlluniau mentora cymheiriaid yn atal pwysau ar wasanaethau datganoledig fel y GIG, gwasanaethau tai a chamddefnyddio sylweddau, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu elfen o gyllid craidd i bartneriaid y trydydd sector sy'n cyflwyno rhaglenni o'r fath.

13. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r ddogfen *'Veteran Informed Prisons: a guide to improving the health and well-being of prisoners in Wales who are veterans'* ac ymestyn ei gwmpas i gynnwys canllawiau am iechyd a llesiant cyn-filwyr mewn rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol.

## Addysg

**14. Gan gydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu plant o deuluoedd milwyr ac er mwyn mynd i'r afael â'r anfanteision o gymharu â rhannau eraill o'r DU, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno Premiwm Disgyblion i Deuluoedd y Lluoedd Arfog.**

15. Dylai consortia addysg rhanbarthol benodi Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, codi rhagor o ymwybyddiaeth o waith Cynorthwyo Plant o Deuluoedd y Lluoedd Arfog yn Ysgolion Cymru, a sicrhau bod ysgolion â phlant aelodau o'r lluoedd yn defnyddio adnoddau'r gwasanaeth yn llawn.

16. Dylid adolygu'r Cod Derbyniadau i Ysgolion er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion uwchradd Cymru fynd dros eu terfyn maint dosbarthiadau er mwyn caniatáu i blant o deuluoedd y Lluoedd Arfog gofrestru yng nghanol y tymor, fel sydd eisoes yn cael ei wneud gyda dosbarthiadau babanod.

17. O gofio pwysigrwydd lluoedd y cadetiaid yn codi ymwybyddiaeth o Luoedd y Fyddin yng Nghymru, y cyfleoedd a gynigir ganddynt i sicrhau cymwysterau galwedigaethol y cadetiaid a'u gallu i fynd i'r afael â diffyg ymgysylltu â'r system addysg, dylai Llywodraeth Cymru annog rhagor o ysgolion i gymryd rhan yn Rhaglen Ehangu'r Cadetiaid mewn Ysgolion.

## Cofio

**18. O gofio gwerth a phwyslais milwyr a chyn-filwyr i ddigwyddiadau'r cofio sy'n anrhydeddu cyfraniad y Lluoedd Arfog i Gymru, dylid ystyried ehangu prosiect llwyddiannus 'Cymru'n Cofio – Wales Remembers' er mwyn helpu i nodi achlysuron milwrol pwysig eraill. Ar ôl 2018, dylid defnyddio gwefan 'Cymru'n Cofio – Wales Remembers' i gofrestru a hyrwyddo pob digwyddiad coffaol.**

19. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod pob cofeb ryfel ddinesig yng Nghymru yn cael ei chynnal a'i chadw'n ddigonol.

20. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag amgueddfeydd milwrol Cymru i sefydlu arddangosfeydd teithiol o'u casgliadau er mwyn hybu digwyddiadau coffa a chodi ymwybyddiaeth o gyfraniad Cymru i'r Lluoedd Arfog.

## Tai

**21. Dylid meithrin perthnasau pellach rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector er mwyn helpu i sefydlu rhagor o lety tai â chymorth ar gyfer cyn-filwyr bregus yng Nghymru.**

22. Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hepgor gofynion cysylltiadau lleol i gynbartneriaid milwyr sy'n gadael llety teuluoedd y lluoedd arfog er mwyn mynd i'r afael â'r anfantais sy'n wynebu rhywun sydd wedi cael ysgariad ag aelod o'r lluoedd arfog o ran cael mynediad i dai cymdeithasol yng Nghymru.

## Cyflogaeth

**23. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun cyflogaeth i helpu'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog, cyn-filwyr a milwyr wrth gefn i ddod o hyd i waith yn y sector cyhoeddus a phreifat a'u hyrwyddo fel caffaeliad gwerthfawr i'r farchnad waith yng Nghymru. Dylai'r cynllun hefyd roi cymorth i bartneriaid aelodau o'r lluoedd arfog sy'n chwilio am waith pan fo'u partneriaid wedi'u lleoli yng Nghymru.**

**Atodiad 1 – *Invitation to Contribute***

**National Assembly Cross Party group for the Armed Forces and Cadets: Inquiry into the impact of the Armed Forces Covenant in Wales**

**Background**

The principles of the Armed Forces Covenant were enshrined in legislation in 2011 pledging that:

- The Armed Forces community should not face disadvantage compared to other citizens in the provision of public and commercial services; and
- Special consideration is appropriate in some cases, especially for those who have given the most, such as the injured or bereaved.

Community covenants complement, at a local level, the Armed Forces Covenant, which outlines the moral obligation between the nation, the government and the armed forces. It encourages local communities to support the armed forces community in their area and promote understanding and awareness among the public of issues affecting the armed forces community.

**Aims of the Covenant locally**

Local authorities and the Armed Forces community are encouraged to work together to establish a covenant in their area in order to:

- encourage local communities to support the Armed Forces community in their areas and to nurture public understanding and awareness among the public of issues affecting the Armed Forces community
- recognise and remember the sacrifices faced by the Armed Forces community
- encourage activities which help to integrate the armed forces community into local life
- encourage the Armed Forces community to help and support the wider community, whether through participation in events and joint projects, or other forms of engagement1

**Achievements**

Since the implementation of the Covenant in Wales, there has been much progress achieved including:

- Full local authority sign up to the Covenant;
- Full Local Health Board sign up to the covenant;
- Appointment of Armed Forces Champions and lead officers in the 22 local authorities;
- Between 2012 - 2016 projects in Wales have received well over £2.m funding via the Armed Forces Covenant fund, to support the Armed Forces community and develop community activity, integration and assistance;
- A Free swimming scheme for members of the Armed Forces in Wales funded by Welsh Government;
- A Welsh Housing Pathway for the Armed Forces outlining key information;
- Regular All Wales Armed Forces meetings facilitated by Welsh Government sharing best practice and information;
- Increased engagement and collaboration between MOD, Welsh Government, National Assembly for Wales, statutory and voluntary organisations;
- Package of Support / Welcome to Wales documents produced in order to provide information to Armed Forces Community regarding advice and support in Wales.
- In 2017 it was confirmed that the majority of local authority areas in Wales will be supported by Armed Forces liaison officers funded by the Covenant.

**Measuring progress**

In 2016 the Local Government Association (LGA) and Forces in Mind Trust commissioned Shared Intelligence to carry out research into ways of improving local delivery of the Armed Forces Covenant. The report, supported by the MoD and a range of Armed Forces Charities, was commissioned in the context of concerns nationally that implementation of the Covenant was inconsistent.

The report carried out a literature review of available evidence, surveys of council Chief Executives and 'deep dive' research visits to 12 local authority areas – one of which was Wrexham local authority.

There has also been an increase in research and evaluation of specific elements of support for the Armed Forces and the demographics of this group in Wales. These include:

- Public Health Wales – care and support needs of veterans in North Wales
- Call to Mind – review of veterans' and their families' mental and related health needs in Wales

Around 5 years on from the implementation of the Covenant however, there has not yet been an independent review of progress of the implementation across all sectors in Wales.

It is proposed that the Assembly's Cross Party Group on Armed forces and Cadets conduct an inquiry that will to provide an important opportunity to:

1. Recognise progress and good practice;
2. Identify areas where further action is required;
3. Outline practical steps that could be taken to ensure momentum is maintained and progress is built on.

**Inquiry questions**

To assist with its inquiry, the Cross Party Group would welcome your views on any or all of the following areas:

- Access to education for armed forces families
- Access to housing
- Support for ex-forces personnel starting a new career
- Access to healthcare
- Financial support for those in need
- Privileges provided by public service providers and private businesses

The questions were as follows:

1. What is your involvement in the support of the armed forces community in Wales?
2. What positive developments have you seen in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?
3. Where has progress been lacking in the delivery of the Armed Forces Covenant in Wales?
4. What is your individual / organisational contribution to the delivery of the Covenant in Wales and ensuring it adds value?
5. What three practical suggestions would you like to see implemented to support the armed forces community in Wales via the Covenant?
6. Is there anything else you would like to say?

INQUIRY DEADLINE: FRIDAY 28 JULY 2017

**Atodiad 2 - Dolenni defnyddiol**

- **Llywodraeth y DU – Covenant guide for local authorities:**
  https://www.armedforcescovenant.gov.uk/guide-local-authorities-now-available/
- **Llywodraeth Cymru – pecyn cymorth diwygiedig:**
  http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/package-of-support/?skip=1&lang=cy
- Local Government Association – our community our covenant:
  https://www.local.gov.uk/topics/communities/armed-forces-covenant
- **Canllawiau arferion gorau a rhestr wirio'r Lleng Brydeinig Frenhinol:**
  http://www.britishlegion.org.uk/get-involved/campaign/community-covenants/
- **Adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog 2016;**
  https://www.gov.uk/government/publications/armed-forces-covenant-annual-report-2016





**Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA